**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1471
Ein cyf/Our ref JMHSC/10084/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

08 Hydref 2024

Annwyl Carolyn,

**Deiseb P-06-1471 Gwahardd ambiwlansys rhag cael eu defnyddio fel gwelyau ychwanegol ar gyfer ysbytai**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Medi ynglŷn â'r ddeiseb uchod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir i fyrddau iechyd nad yw'n dderbyniol i bobl aros am gyfnodau hir mewn ambiwlansys y tu allan i adrannau argyfwng.

Gall oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys effeithio ar brofiad y claf, yn ogystal â gallu'r criwiau ambiwlans i ymateb i alwadau yn y gymuned. Mae gan y byrddau iechyd gynlluniau ar waith i leihau nifer yr achosion lle mae oedi wrth drosglwyddo claf, a chefnogir y cynlluniau hynny gan gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Ond mae oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys yn aml yn digwydd oherwydd oedi mewn mannau eraill yn y system gofal iechyd. Mae'n rhaid i'r byrddau a llywodraeth leol gymryd camau pellach i leihau nifer y bobl nad ydynt yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol, gan y byddai hynny'n helpu i wella llif pobl drwy'r system iechyd a gofal ac yn ei dro leihau'r oedi sy'n digwydd wrth ddrysau blaen ysbytai.

Mae ein rhaglen genedlaethol *Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng* wrthi'n datblygu llwybrau a gwasanaethau cymunedol amgen i sicrhau bod pobl yn cael y gofal iawn yn y lle iawn y tro cyntaf, nad yw bob amser yn golygu mynd i adran argyfwng.

Rydym yn buddsoddi dros £180m eleni i helpu byrddau iechyd a byrddau partneriaeth rhanbarthol i reoli mwy o bobl yn y gymuned mewn modd diogel. Dylai hyn helpu i ddatgloi capasiti ambiwlansys, gan wella eu gallu i ymateb. Rydym yn monitro'r cynnydd a wneir gan y byrddau iechyd yn agos iawn, ac rydym wedi gweld gwelliannau yn ystod y misoedd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

diwethaf. Rydym yn disgwyl gweld gwelliannau pellach dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, wrth i gamau gael eu cymryd i leihau'r amseroedd oedi hiraf.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care